

2024 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465
(Cylchfan Resolfen i Gylchfan
Glyn-nedd, Castell-nedd Port
Talbot) (Gwaharddiadau a
Chyfngiadau Traffig Dros Dro)
2024

Gwnaed 13 Rhagfyr 2024

Yn dod i rym 19 Rhagfyr 2024

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Resolfen i Gylchfan Glyn-nedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfngiadau Traffig Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Rhagfyr 2024.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“exempted vehicle”) yw—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

2024 No. (W.)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A465 Trunk Road (Resolven Roundabout to Glynneath Roundabout, Neath Port Talbot) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2024

Made 13 December 2024

Coming into force 19 December 2024

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A465 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A465 Trunk Road (Resolven Roundabout to Glynneath Roundabout, Neath Port Talbot) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2024 and this Order comes into force on 19 December 2024.

Interpretation

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“cerbyd esempt”) means—

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r luoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r luoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 06:00 o'r gloch ar 19 Rhagfyr 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

- (a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) or in connection with the works giving rise to this Order;
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A465 Neath to Abergavenny trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 06:00 hours on 19 December 2024 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibitions and restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 and 2 to this Order.

4. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiwedd y unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

Atal Dros Dro

7. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4 a 5 yn weithredol.

Cymhwysol

8.—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw terfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyafrif.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 13 Rhagfyr 2023

Nickinson

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

5. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order.

6. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order during such times as the restriction referred to in article 5 is in operation.

Suspension

7. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 4 and 5 are in operation.

Application

8.—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

Duration of this Order

9. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales one of the Welsh Ministers.

Dated

13 December 2024

Nickenser

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

ATODLEN 1
Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darnau o gerbytffordd tua'r gogledd a cherbytffordd tua'r de yr A465 sy'n ymestyn o'r gyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Resolfen hyd at y gyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Glyn-nedd.

ATODLEN 2
Cau Cilfannau

Cilfannau cerbytffordd tua'r gogledd a cherbytffordd tua'r de yr A465 rhwng Cylchfan Resolfen a Chylchfan Glyn-nedd.

ATODLEN 3

**Terfynau Cyflymder 40 mya a 10 mya Dros Dro a
Gwahardd Goddiweddyd yn ystod Gwaith Confoi**

Y darnau o gerbytffordd tua'r gogledd a cherbytffordd tua'r de yr A465 rhwng Cylchfan Resolfen a Chylchfan Glyn-nedd.

SCHEDULE 1
Temporary Prohibition of Vehicles

The lengths of the A465 northbound and southbound carriageways that extend from the junction with the circulatory carriageway of Resolven Roundabout to the junction with the circulatory carriageway of Glynneath Roundabout.

SCHEDULE 2
Closure of Laybys

The A465 northbound and southbound carriageway laybys between Resolven Roundabout and Glynneath Roundabout.

SCHEDULE 3
**Temporary 40 mph, 10 mph Speed Limits and
Prohibition of Overtaking during Convoy
Working**

The lengths of the A465 northbound and southbound carriageways between Resolven Roundabout and Glynneath Roundabout.